CYFRES A11

amserbeibl

Astudiaethau Beiblaidd – Safon 4

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oedran Dyddiad geni

Enw

Cyfeiriad

Enw Arweinydd y Dosbarth

Astudiaethau Beiblaidd o'r Testament Newydd
Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th

DARLLENWCH
Actau 21: 17-40
22: 1-30

ADNOD
ALLWEDDOL
Actau 22: 14 & 15

Astudiaeth 1 Paul o flaen y Llys – Jerwsalem a'r Dyrfa

Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen
Rhufeiniaid 1: 16 2 Timotheus 1: 8 a 12

Ar ddechrau'r astudiaeth hon, mae Paul yn cyrraedd i ddinas fawr ac yn cyfarfod â henuriaid yr eglwys leol.

C **Enwch y ddinas ac un o'r bobl y cyfarfu Paul â nhw.** 1

Soniodd Paul wrthyn nhw am yr holl bethau yr oedd Duw wedi'u gwneud ymhlith y Cenhedloedd (y bobl oedd ddim yn Iddewon) ac fe ddywedon nhw wrth Paul bod nifer fawr o Iddewon wedi credu'r Efengyl. Ond roedden nhw'n poeni bod rhai pobl yn honni bod Paul wedi dweud nad oedd angen cadw rhai arferion Iddewig.

C **Ysgrifennwch YN EICH GEIRIAU EICH HUNAN beth roedd rhai pobl yn dweud bod Paul wedi'i ddweud. (Actau 21: 21).** 2

Trefnwyd bod Paul yn ymuno â chriw o ddynion mewn seremoni yn y Deml, i brofi nad oedd y pethau hyn yn wir.

P	T	Y	R	DD	A	L
E	W	O	FF	I	G	I
D	E	M	L	A	R	D
W	M	U	S	T	O	A
A	S	I	A	C	E	R
R	Y	R	E	N	G	A
FF	E	S	I	A	A	I
D	T	A	R	S	U	S

C **Llanwch y bylchau i gael gwybod beth ddigwyddodd tra oedd Paul yn y Deml. Yna, rhowch gylch o gwmpas yr atebion yn y Chwilair. (Actau 21: 17-40)**

1. Faint o ddynion oedd wedi gwneud llw? _ _ _ _ _ _
2. O ble'r oedd y bobl a gododd gynnwrf yn dod? _ _ _ _
3. Mae Groegiaid yn dod o Wlad _ _ _ _ _.
4. Y man lle'r oedden nhw'n addoli. Y _ _ _ _
5. Roedden nhwn honni bod y lle _ _ _ _ _ _ _ __ wedi cael ei halogi.
6. Ceisiodd y dyrfa wneud hyn i Paul. Ei _ _ __!
7. Roedd Paul yn dod o'r lle hwn yng Cilicia. _ _ _ _ _ _
8. Cafodd Paul ei rwymo â _ _ _ gadwyn.
9. Gofynnodd Paul am ganiatâd i wneud hyn. _ _ _ _ _ _

C **Defnyddiwch weddill y llythrennau yn y Chwilair i gael gwybod pwy roedd yr Iddewon yn meddwl fod Paul wedi dod ag ef i mewn i'r Deml. (adnod 29)** 5

Cafodd Paul ei achub rhag cael ei guro i farwolaeth gan y dyrfa ffyrnig. Pan ofynnodd i'r capten a gâi siarad ag ef, roedd hwnnw'n meddwl mai rhywun arall oedd Paul.

C **Tanlinellwch yr atebion cywir.** 2

Roedd y capten yn meddwl mai dyn o'r **AIFFT / RHUFAIN / SYRIA** oedd wedi arwain gwrthryfel gyda **40 / 400 / 4000** o ddynion oedd e. Dywedodd Paul wrtho mai **GROEGWR / IDDEW / RHUFEINIWR** o **TYRUS / TROAS / TARSUS** oedd e.

Yna, cafodd Paul ganiatâd i siarad â'r dyrfa. Dywedodd wrthyn nhw ei fod wedi cael troedigaeth a'i fod wedi dod yn un o ddilynwyr Iesu Grist.

C **Rhowch ✓ neu ✗ i ddangos a yw'r brawddegau hyn yn wir ai peidio, a rhowch rif yr adnod ym Mhennod 22 i brofi'ch ateb:-** 5

1. Roedd Gamaliel wedi bod yn athro ar Paul. ..... adnod .....
2. Aeth i Ddamascus er mwyn carcharu'r Cristnogion. ..... adnod .....
3. Ar y ffordd, am hanner nos, gwelodd olau llachar o'i amgylch. ..... adnod .....
4. Clywodd lais yn dweud, "Iesu o Nasareth wyf fi." ..... adnod .....
5. Gofynnodd, "I ble'r af i, Arglwydd?" ..... adnod .....

C **Beth oedd Ananias wedi'i ddweud am Paul? "Fe fyddi di'n _ _ _ _ iddo?" (Darllenwch yr Adnodau Allweddol).** 1

Daeth Paul â'i dystiolaeth i ben trwy esbonio bod Duw wedi dweud wrtho ei bod yn rhaid iddo adael Jerwsalem.

C **Beth ddywedodd Paul a wnaeth i'r dyrfa wylltio?** 1

Yna trefnwyd i chwipio Paul i gael gwybod pam yr oedd y dyrfa wedi ymateb mor ffyrnig.

C **Beth ofynnodd Paul i'r canwriad oedd yn mynd i'w chwipio?** 1

C **Pa bethau sy'n debyg rhwng profiadau Paul yma a phrofiadau Iesu Grist?** 2

Roedd bywyd Paul wedi newid gymaint fel ei fod bob amser yn barod i sôn wrth bobl am Iesu Grist. Os ydych chi'n Gristion go iawn, ydych chi'n sôn wrth eich ffrindiau am Iesu Grist a'r hyn y gall Ef ei wneud drostyn nhw?

Enw _____

DARLLENWCH
Actau 23: 23-26
24: 1-27 25: 1-12

ADNOD ALLWEDDOL
1 Pedr 3: 15

Astudiaeth 2 Paul o flaen y Llys – Cesarea a'r Llywodraethwyr

Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen
2 Timotheus 2: 1-7 • 1 Pedr 4: 12-19

Ar ôl i'r milwyr Rhufeinig ei achub, daeth Paul wyneb yn wyneb â'r prif offeiriaid.
Y noson honno, dywedodd Duw wrth Paul y byddai'n dyst iddo yn Rhufain. (Actau 23: 11)
Tra oedd Paul yn dal yn y ddalfa, er ei ddiogelwch ei hunan yn bennaf, clywodd mab ei chwaer bod cynllwyn i'w ladd. Felly, cafodd ei symud o Jerwsalem i Gesarea i'w gadw'n ddiogel gan y rhaglaw Rhufeinig.

C **Ysgrifennwch yn y blychau faint o filwyr aeth gyda Paul ar ei daith.** 1

_____ o Filwyr _____ o Wŷr Meirch _____ o Bicellwyr

Anfonodd y capten lythyr at y rhaglaw yn esbonio beth oedd wedi digwydd.

C **Ysgrifennwch eu henwau ar y sgrôl.**

Ymhen rhai dyddiau, roedd Paul yn sefyll gerbron y rhaglaw (llywodraethwr), wedi'i gyhuddo o ragor o bethau. 1

C **Enwch yr Archoffeiriad a'r cyfreithiwr (dadleuydd).** 1

_____ _____

C **Yna, aeth Paul ati i'w amddiffyn ei hunan. Gwnewch y Croesair i weld beth a ddigwyddodd. Daw'r atebion o Actau 24: 1-21**

1. Faint o ddyddiau oedd ers i Paul fynd i yn Jerwsalem?
2. Dywedodd Paul mai Iddewon o _ _ _ _ oedd wedi dechrau'r drafferth.
3. Roedd Paul yn credu pob peth oedd wedi'i ysgrifennu yn hon.
4. Y pwnc a achosodd iddo fod ar brawf gerbron Ffelix. (Adnod 21)
5. Roedden nhw'n honni bod Paul wedi creu trafferth yma.
6. Dywedodd Paul ei fod yn _ __ _ _ _ Duw.
7. Dywedodd ei fod yn addoli Duw yn null y __ _ _ __.
8. Roedd Paul yn credu pob peth oedd wedi'i ysgrifennu yn y rhain hefyd.



8

Cafodd y mater ei ohirio eto. Yn y cyfamser roedd ei ffrindiau'n cael dod i weld Paul ac fe ofynnodd y llywodaethwr a'i wraig Iddewig iddo esbonio'i ffydd wrthynt fwy nag unwaith.

C **Llanwch y Grid Geiriau (Actau 24: 24-27)**

1. Pwy ddaeth yn llywodraethwr yn lle Ffelix?
2. Roedd Ffelix yn _ _ _ _ _ _ _ ar Paul yn sôn am ei ffydd?
3. Beth oedd enw gwraig Ffelix?
4. Roedd _ _ _ ar Ffelix pan oedd Paul yn sôn am y Farn oedd i ddod.



2

C **Wrth i Paul ddweud y Newyddion Da am Iesu Grist, pa dri pheth wnaeth e sôn amdanyn nhw'n benodol? (Gweler 24: 25)**

1	2	3

C **Wrth wrando, daeth ofn ar Ffelix. Ond, gwaetha'r modd, beth ddywedodd e wrth Paul?**



2

Dyna drist! Wrth wrando ar yr Efengyl, fe glywodd bod angen iddo drystio Iesu i fod yn Waredwr iddo, ond fe ohiriodd y penderfyniad! Hyd y gwyddom ni, ni ddaeth Ffelix yn Gristion byth. Mae'n rhaid i ni fod yn ofalus nad ydyn ni'n gohirio'r penderfyniad hefyd. Penderfynu a ydyn ni am gredu yn Iesu fel ein Gwaredwr yw'r penderfyniad pwysicaf a wnawn ni.
Roedd Paul wedi bod yn dyst ffyddlon unwaith eto ond bu'n garcharor am ddwy flynedd arall am fod Ffelix eisiau bod yn boblogaidd gyda'r Iddewon. Chafodd y mater ddim o'i ystyried eto tan i Ffestus ddod yn llywodraethwr.

C **Ysgrifennwch YN EICH GEIRIAU EICH HUNAN pam yr oedd yr arweinwyr Iddewig yn awyddus i Paul gael ei anfon nôl i Jerwsalem. (25: 1-3)**

1

Unwaith eto, roedd Duw'n gwarchod Paul ac unwaith eto bu'n rhaid iddo sefyll gerbron y llys.

C **Pwy oedd Paul yn dymuno iddo wrando ar ei achos a pham?**

2

Roedd Duw wedi dweud y byddai Paul yn dyst iddo yn Rhufain. Dyna lle y byddai'n mynd nesaf!

C **Ysgrifennwch y rhan o'r Adnod Allweddol oedd yn wir am Paul ac a ddylai fod yn wir am bawb sy'n credu yn Iesu fel Arglwydd a Gwaredwr.**
Ydi hyn yn wir amdanoch chi?

2

Enw _____

DARLLENWCH
Actau 25: 13-27
26: 1-32

ADNOD ALLWEDDOL
Actau 26: 28

Astudiaeth 3 Achos Llys Paul – Cesarea a'r brenin

Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen

Luc 21: 12-15 • Actau 22: 3-16

Cyn i Paul fynd i Rufain i sefyll ei brawf gerbron Cesar, daeth rhyw bobl i weld y llywodraethwr. Soniodd y llywodraethwr wrthynt am y benbleth yr oedd ynddi ynglŷn â Paul.

C **Pwy oedd y llywodraethwr a lle'r oedd yn byw?** 1

C **Beth oedd enwau'r bobl ddaeth i'w weld?** 1

Dywedodd y llywodraethwr wrth y brenin am yr anghydfod rhwng Paul a'r arweinwyr Iddewig.

C **Ysgrifennwch YN EICH GEIRIAU EICH HUNAN beth oedd achos yr anghydfod.** 2

C **Wrth bwy y gwnaeth Paul apelio? Rhowch gylch o gwmpas yr ateb cywir.** 1

Cesar **Y Brenin Herod** **Alexander Fawr**

C **Pam y gwnaeth Ffestus orchymyn i Paul sefyll gerbron y brenin, y capteiniaid a gwŷr amlwg y ddinas? (Actau 25: 23-27)** 1

Yna, esboniodd Paul sut y daeth i gredu yn yr Arglwydd Iesu.

C **Darllenwch Actau 9: 15 ac ysgrifennu'r rhan o'r hyn a ddywedodd yr Arglwydd wrth Ananias oedd yn cael ei gyflawni yn awr.** 2

C **Atebwch y cwestiynau isod am yr hyn a ddywedodd Paul wrth y brenin. (Actau 26: 1-23)**

Aelod o ba sect neu blaid grefyddol oedd Paul pan oedd yn ifanc? .....

Beth oedd Paul yn ei ddweud na ddylid ei gyfrif yn anghredadwy? Codi'r .....

Beth gafodd Paul gan rai o'r arweinwyr yn Jerwsalem? .....

Pwy oedd yr arweinwyr hyn? ....

Ble roddodd Paul lawer o bobl Dduw? .....

Yn ôl Actau 26: 13 ac 19 o ble y daeth y golau a'r weledigaeth? 4

Yr oedd y golau'n fwy llachar na'r .....

Ym mha ddinas oedd Paul yn erlid y Cristnogion? .....

C **Darllenwch Actau 9: 3 a 4 ac ysgrifennwch enw lle pwysig yn hanes bywyd Paul** 1

C **Tynnwch linell trwy'r geiriau anghywir er mwyn dangos beth ddywedodd yr Arglwydd Iesu fyddai gwaith newydd Paul**

"**AGOR / CAU CLUSTIAU / LLYGAID** yr Iddewon a'r Cenhedloedd, i'w troi o **DYWYLLWCH / OLEUNI i DYWYLLWCH / OLEUNI**, o awdurdod **SATAN / CESAR** at Dduw, er mwyn iddynt gael **MADDEUANT / COSB** am eu pechodau." 3

C **Pa dri pheth pwysig ddywedodd Paul ei fod yn eu pregethu wrth bobl? (adnod 20)** 1

Os down ni'n Gristnogion, bydd raid i ninnau hefyd wneud yn union fel y dywedodd Paul.

C **Beth oedd ymateb Ffestus i dystiolaeth Paul?** 1

C **Beth oedd ateb y Brenin Agripa pan ofynnodd Paul iddo a oedd yn credu?** 1

C **I ba gasgliad ddaeth y ddau ddyn am Paul a'r cyhuddiadau a wnaed yn ei erbyn?** 1

Roedd y Brenin Agripa yn agos iawn at gredu y cyfan a ddywedodd Paul ac felly at ddod yn Gristion. Ond nid oedd yn credu'n llwyr a, hyd y gwyddom ni, ddaeth e ddim yn Gristion. Mae llawer o bobl heddiw wedi clywed Efengyl yr Arglwydd Iesu ond heb edifarhau a throi ato fel eu Gwaredwr! !

Enw _____

DARLLENWCH
Actau 27: 1-44
28: 1-10 a 28-31

ADNOD ALLWEDDOL
Actau 27: 24 a 25

Astudiaeth 4 Achos Llys Paul – Llongddrylliad

Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen

2 Corinthiaid 11: 21-33 • 2 Timotheus 4: 16-18

Ar y fordaith i Rufain, roedd Paul o dan ofal canwriad o'r enw Jwlius. Dyma fap o'r daith.



C **Atebwch y cwestiynau o bennod 27 o Actau i lenwi'r GRID GEIRIAU.**

(Mae'r rhifau ar y map yn dangos lle mae'r llefydd.)

1. Fe wnaethon nhw hwylio ger y lle hwn. (Adnod 5)
2. Roedd eu llong gyntaf yn dod o'r porthladd hwn. (Adnod 2)
3. Enw'r dyn o Facedonia a ymunodd â nhw.
4. Y dref lle'r oedd yn byw.
5. Rhowch gylch ar y Grid Geiriau i ddangos enw'r porthladd lle'r aethon nhw ar fwrdd yr ail long.



5

C **Enwch y llefydd sy'n cael eu disgrifio isod, ac ysgrifennu'r enwau yn y lle iawn ar y map.**

A. Y porthladd y daethant iddo ar ôl taith un diwrnod. (27: 3) .....

B. Yr ynys y buont arni am beth amser. (27: 7-9) .....

C. Yr ynys olaf y mae sôn amdani cyn y llongddrylliad. (27: 16) .....

D. Yr ynys lle bu'r llongddrylliad. (28: 1) .....

2

C **Rhowch ✓ neu ✗ i ddangos a yw'r brawddegau hyn yn gywir ai peidio. Rhowch rif yr adnod ym mhennod 27 i brofi'ch ateb:-**

Cafodd Paul ei drin yn wael gan y canwriad. ..... adnod .....

Ni wnaeth y canwriad wrando ar rybudd Paul. ..... adnod .....

Fe hwylion nhw pan gododd gwynt cryf. ..... adnod .....

3

C **Pa DDAU beth penodol a wnaeth y llongwyr i ymdopi â'r storm?**

2

Mae'r **Adnodau Allweddol** yn dangos bod Paul yn gallu annog criw'r llong am ei fod wedi credu addewid Duw.

C **Ysgrifennwch beth ddywedodd Paul sy'n profi ei fod wedi cymryd Duw ar ei air.**



1

C **Gwnewch y CROESAIR i weld beth ddigwyddodd nesaf.**



Cliwiau ar Draws

1. Gair cyffredinol am yr hyn gawson nhw i'w fwyta.
3. Y man lle cydiodd y neidr yn Paul. (28: 3)
6. Roedd y tân yn braf am ei bod yn _____. (28: 2)
7. Un rhan o offer y llong. (27: 40)
8. O'r rhan hon o'r llong y taflodd y morwyr yr angorion.

Cliwiau i Lawr

2. Diolchodd Paul i Hwn. (27: 35)
3. Ar y dechrau, roedd yr ynyswyr yn meddwl mai dyma oedd Paul. (28: 4)
4. Roedd y rhain yn mynd i ladd y carcharorion i gyd. (27: 42)
5. Cafodd tad hwn ei iacháu gan Paul. (28: 8)
9. Pryd synhwyrodd y morwyr eu bod yn agos at y lan. Tua chanol _____(27: 27)

5

Fe dreulion nhw dri mis ar yr ynys. Yna, ar ôl teithio am bythefnos, cyrhaeddodd Paul a'r lleill i Rufain.

1

C **Yn ôl adnod 28, beth ddywedodd Paul oedd wedi'i hanfon at y Cenhedloedd?**

1

C **Pa ddau beth roedd Paul bob amser yn eu gwneud pan fyddai pobl yn dod i'w weld?**

Ydych chi wedi ymddiried yn yr Arglwydd Iesu? Ydych chi wedi dweud wrth bobl eraill amdano?

cyfanswm

Marciau
(i'w nodi gan yr arweinydd)

Cyfanswm

Cyfanswm Llawn

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services. P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar www.biblelinkit.com neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.
Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygwyd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynyr Roberts.
Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o **www.amserbeibl.org**
Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH ☎ 01766 819120